# NEWYDDLEN DEMOGRAFFEG

**Llywodraeth Cymru, Mai 2018**




## AMCANGYFRIFON DIWYGIEDIG O'R BOBLOGAETH: CANOL-2012 I GANOL-2016

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi diwygio amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl arferol ar gyfer canol-2012 i ganol-2016 (ar 30 Mehefin) ar gyfer Cymru a Lloegr ddydd Iau 22 Mawrth. Mae'r diwygiadau hyn yn cwmpasu amcangyfrifon is-genedlaethol o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig – mae amcangyfrifon cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr wedi eu cadw'n gyson.

Mae gwelliannau methodolegol wedi'u gweithredu gan ganiatáu creu cyfres newydd o amcangyfrifon o Gyfrifiad 2011 ymlaen. Mae'r ffigurau diwygiedig hyn yn cynnwys amcangyfrifon newydd o fewnfudo rhyngwladol ar gyfer awdurdodau lleol a dibynyddion lluoedd arfog tramor.

Mae'r amcangyfrifon diwygiedig o'r boblogaeth ar gael ar StatsCymru. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan yr ONS (Saesneg yn unig).




## YSTADEGAU'R GOFRESTR ETHOLIADOL

Cyhoeddwyd ystadegau ar bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau seneddol a llywodraeth leol fel a gofnodwyd yn y cofrestrau etholiadol ddydd Iau 22 Mawrth.

Ar gyfer Cymru (a Lloegr), cymerir ystadegau etholiadol o ddata a gyflenwir i'r ONS gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol lleol. Cyfrifon blynyddol o nifer y bobl sydd wedi eu cofrestru ar gofrestrau etholiadol ac felly â'r hawl i bleidleisio yw ystadegau etholiadol.

Cyfanswm nifer yr etholwyr seneddol yng Nghymru yw 2,261,000; cynnydd o 0.8 y cant rhwng Rhagfyr 2016 a Rhagfyr 2017. Cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru yw 2,291,000; cynnydd o 0.9 y cant rhwng Rhagfyr 2016 a Rhagfyr 2017.

Mae nifer yr etholwyr a chyrhaeddwyr (pobl sydd yn troi'n 18 oed yn ystod y flwyddyn gofrestru) ar gael ar StatsCymru. Mae ystadegau'r gofrestr etholiadol ar gyfer y Deyrnas Unedig ar gael ar wefan yr ONS (Saesneg yn unig).

2021 Cyfrifiad Census


## YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS 'BARN GYCHWYNNOL AR GYNLLUN CYNNWYS ALLBYNNAU CYFRIFIAD 2021'

Mae'r ONS wrthi'n cynnal ymgynghoriad am gynllun arfaethedig cychwynnol allbynnau Cyfrifiad 2021 a'r sianeli lledaenu ar gyfer Cymru a Lloegr.

Hoffent gasglu barn defnyddwyr ar gynllun cychwynnol allbynnau Cyfrifiad 2021 i sicrhau bod eu cynnig yn diwallu anghenion defnyddwyr. Bydd yr adborth yn helpu'r ONS i flaenoriaethu gwaith ymchwil a datblygu allbynnau Cyfrifiad 2021 yn y dyfodol. Bydd yr adborth hefyd yn hysbysu'r drefn y byddant yn cyhoeddi eu hallbynnau.

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan hanner nos **23 Mai 2018**. Bydd yr ONS yn cyhoeddi eu hymateb erbyn hydref 2018. Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar wefan yr ONS (Saesneg yn unig).

---




## AMCANGYFRIFON O'R BOBLOGAETH AR GYFER Y DEYRNAS UNEDIG, CYMRU A LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON: CANOL-2017

Bydd yr ONS yn cyhoeddi amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer canol-2017 ddydd Iau 28 Mehefin.

Bydd y datganiad hwn yn cynnwys amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd data ar gael yn ôl ardal weinyddol, oedran, rhyw a chydrannau newid poblogaeth, gan gynnwys mudo mewnol.

---




## AMCANGYFRIFON SIARADWYR CYMRAEG O AROLWG BLYNYDDOL O'R BOBLOGAETH

Cyhoeddir amcangyfrifon o siaradwyr Cymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bob tri mis.

Cyhoeddir y data ar StatsCymru ac mae ar gael yn ôl awdurdod lleol a chyfnod amser.

Mae'r data diweddaraf, a gyhoeddwyd ddydd Iau 29 Mawrth, yn amcangyfrif bod 870,400 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru, tua 28.3 y cant o'r boblogaeth. Mae hyn ym amrywio o 72.2 y cant yng Ngwynedd i 15.2 y cant yn Sir Fynwy.

Fodd bynnag, mae'r cyfrifiad yn parhau i fod y ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae rhagor o ystadegau am y Gymraeg ar gael ar StatsCymru.

Bydd yr amcangyfrifon nesaf o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cael eu cyhoeddi fis Mehefin.

---




Cyhoeddodd Cofnodion Cenedlaethol yr Alban amcangyfrifon o'r boblogaeth canol-2017 ar gyfer yr Alban ddydd Iau 19 Ebrill (Saesneg yn unig).

Cyhoeddodd Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon amcanestyniadau o'r boblogaeth sail-2016 ar gyfer ardaloedd o fewn Gogledd Iwerddon ddydd Iau 26 Ebrill (Saesneg yn unig).

Bydd yr ONS yn cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth ar gyfer Lloegr ddydd Iau 24 Mai (Saesneg yn unig).

---

**Cysylltu**
Ffôn: 0300 025 0373 E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru